CYDLYNYDD CYNULLEIDFA, ADDYSG AC ADFYWIO

GWYBODAETH GEFNDIR

Mae Ffilm Cymru Wales yn sefydliad sy'n ymrwymedig i adeiladu sector a diwylliant ffilm ledled Cymru sy'n gynhwysol a chynaliadwy. Ymfalchïwn yn amrywiaeth ein gwaith a'n hymrwymiad parhaus i ehangu'r cyrhaeddiad yn y ddwy iaith ac ar draws y gymdeithas. Llwyddwyd i gyflawni hyn drwy gymysgedd o entrepreneuriaeth, cyd-ddysgu, partneriaethau ac arloesedd.

Mae strategaeth addysg Ffilm Cymru Wales yn cefnogi prosiectau sy'n ysbrydoli dysgu drwy ffilm. Mae ein prosiectau addysg yn annog pobl o bob oed i ddarganfod sgiliau a chyfleoedd newydd. Ymgysylltwn â phobl ifanc, oedolion, grwpiau, ac unigolion ag Anghenion Addysgol Arbennig mewn ardaloedd yr ystyrir nad oes ganddynt lawer o fynediad at ffilm.

Mae ein Strategaeth Mynediad Cynulleidfa wedyn, a ddatblygwyd gyda'r sector, yn blaenoriaethu cynhwysiant, arloesedd a gwerth am arian – meysydd allweddol o ffocws wrth inni werthuso cefnogaeth i arddangoswyr ledled Cymru, ac effaith yr arddangoswyr hynny; gwerthoedd sydd yr un modd yn berthnasol i'n gwaith addysg, gyda'i ffocws ar ardaloedd a demograffeg nad ydynt wedi'u gwasanaethu'n ddigonol.

Bydd y rôl hon yn darparu cymorth gweinyddol, cyllid a monitro data penodol i'r Rheolwr Cynulleidfa, Addysg ac Adfywio. Bydd hyn yn cynnwys paratoi contractau i dempled a gwaith papur manwl i gefnogi elfennau cyllido Cynulleidfa ac Addysg a dyfarniadau dilynol.

Yn gynyddol, mae ein gwaith yn ymwneud â'r hyn a alwn yn ddull Magnifier, sy'n dwyn cynhyrchwyr ynghyd ar y camau datblygu cynharaf i gydweithio a llunio cynllun datblygu cynulleidfa, addysg a busnes i bob prosiect.

Mae Ffilm Cymru Wales yn ddirprwy'r loteri i Gyngor Celfyddydau Cymru a'r BFI, fel derbynnydd cymorth grant y BFI, ac felly mae'n gweithredu yng nghyd-destun ehangach blaenoriaethau economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac addysgol llywodraeth Cymru a llywodraeth ganolog. Y mae cefnogaeth drawsbleidiol Llywodraeth Cymru i wella cynhwysiant cymdeithasol, gan gynnwys Deddf Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol, yn arbennig o berthnasol.

I gael mwy o wybodaeth, ewch i **www.ffilmcymruwales.com**

RÔL A CHYFRIFOLDEBAU

Gan weithio i Reolwr Cynulleidfa, Addysg ac Adfywio, bydd gan Gydlynydd Cynulleidfa, Addysg ac Adfywio y rôl a'r cyfrifoldebau canlynol:

- Gweithredu'n bwynt cyswllt cyntaf ar gyfer ymholiadau i elfennau cyllido cynulleidfa ac addysg Ffilm Cymru Wales.
- Cynnig cyngor a chymorth i'n sylfaen gleientiaid amrywiol o arddangoswyr ffilm ac ymarferwyr addysg ffilm yn ystod eu proses ymgeisio am gyllid.
- Darparu cymorth gweinyddol gan gynnwys cofnodion cyfarfodydd, ffeilio, casglu data ac asesu adroddiadau gwerthuso.
- Monitro a chydgrynhoi gwaith papur Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer cyllidwyr Ffilm Cymru Wales gan gynnwys Sefydliad Ffilm Prydain a Chyngor Celfyddydau Cymru.

- Paratoi llythyron a chontractau dyfarniadau i gleientiaid a gyllidir, gan ddefnyddio templedi parod, a sicrhau y caiff allbynnau eu cyflawni ar amser a sicrhau y caiff cynlluniau busnes, ystadegau cynulleidfa, adroddiadau diwedd prosiect a phecynnau addysgol eu derbyn a'u prosesu'n briodol.
- Sicrhau y caiff holl ffeiliau'r prosiectau eu diweddaru'n rheolaidd a'i rheoli'n gywir.
- Dadansoddi data ac adroddiadau gwerthuso o brosiectau a gyllidir, i grynhoi canfyddiadau a mesur effaith.
- Ymchwilio a defnyddio canfyddiadau data i lunio adroddiadau cytbwys ar gyfer Rheolwr Cynulleidfa, Addysg ac Adfywio i gefnogi dogfennau cyllido, briffiau a phapurau'r Bwrdd.
- Adrodd yn rheolaidd i Reolwr Cyllid Ffilm Cymru Wales, prosesu ceisiadau am daliadau a chynnal cofnodion cywir yn erbyn cyllidebau mewnol.
- Cynorthwyo i gynnal digwyddiadau'r cwmni a chydlynu ar sail ad-hoc ar brosiectau pwrpasol yn ôl yr angen, e.e. hwyluso sgriniadau ffilm mewn cymunedau lleol, cynrychioli'r sefydliad mewn ffeiriau gyrfaoedd, a chynorthwyo i hyfforddi gwirfoddolwyr.
- Cynnal cronfeydd data ymarferwyr addysg, arddangoswyr ffilmiau a phrosiectau ar draws yr elfennau cyllido a glynu wrth ganllawiau cydymffurfiaeth.
- Cynorthwyo strategaeth farchnata Ffilm Cymru Wales, rheoli ffrwd cyfryngau cymdeithasol yr adran @ffilmeducation, cynhyrchu cynnwys i'r we yn achlysurol megis blogbostiadau, a thrafod gyda thrydydd partïon ynglŷn â chyfrannu astudiaethau i dempledi marchnata.
- Unrhyw dasgau eraill a allai fod yn rhesymol ofynnol i'r rôl hon o bryd i'w gilydd.

MANYLEB Y PERSON

Sgiliau	Gofynion
Y gallu i siarad Cymraeg	Dymunol
Sgiliau cyllideb ac adrodd rhagorol	Hanfodol
Sylw rhagorol i fanylder a'r gallu i wirio eich gwaith eich hun yn gywir a heb oruchwyliaeth	Hanfodol
Sgiliau rhifedd rhagorol a'r gallu i fewnbynnu a dilyn trywydd data yn gywir	Hanfodol
Sgiliau ysgrifenedig a llafar rhagorol	Hanfodol
Sgiliau gweinyddu a threfnu rhagorol	Hanfodol
Y gallu i fodloni terfynau amser a gweithio'n dda o dan bwysau	Hanfodol
Y gallu i ymdrin a galwadau sy'n gwrthdaro a llwyth gwaith llawn	Hanfodol
Y gallu i reoli eich hun a blaenoriaethu eich llwyth gwaith	Hanfodol
Profiad o weithio gyda chronfeydd data a'u rheoli, a threfnu ac adrodd ar ddata i bartïon allanol	Hanfodol
Trwydded yrru lawn a glân	Dymunol
Deall heriau a chyfleoedd ar gyfer cyrhaeddiad cynhwysol sector y celfyddydau yng Nghymru	Dymunol
Yn gyfarwydd â Blaenoriaethau Adfywio a Thlodi Diwylliannol Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru gan gynnwys y Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc a Deddf Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol	Dymunol
Profiad o weithio â gweinyddu ac adrodd ariannol	Dymunol
Y gallu i ddatrys problemau	Dymunol
Profiad o weithio gyda'r celfyddydau mewn cyd-destun adfywio neu gymunedol ac adrodd ar ei effaith	Dymunol